**WHC/2021/007**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

**Dyddiad cyhoeddi:** 11 Mawrth 2021

**STATWS: GWEITHREDU**

**CATEGORI: GWEITHIWR IECHYD PROFFESIYNOL**

**Teitl:** Rhaglen Plant Iach Cymru – Y cysylltiad ar gyfer archwiliad corfforol ôl-enedigol 6 wythnos o blentyn gan feddyg teulu

**Dyddiad dod i ben / adolygu:** Amh

| **I'w weithredu gan:** | **Camau i'w cymryd erbyn:** |
| --- | --- |
| GIG Cymru, Meddygon Teulu | Mawrth 2021 |

**Anfonir gan:** Jonathan Williams, Mark Walker

Llywodraeth Cymru

**Enw(au) Cyswllt y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru:**

Jonathan Williams, Pennaeth Iechyd Plant, Y Gyfarwyddiaeth Gofal Iechyd Poblogaethau

Mark Walker, Uwch-swyddog Meddygol ar gyfer Gofal Sylfaenol, Y Gyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol a Gwyddor Iechyd

**Dogfen(nau) amgaeedig:** Ffurflen casglu data

Rhaglen Plant Iach Cymru – ***Y cysylltiad ar gyfer archwiliad corfforol ôl-enedigol 6 wythnos o blentyn gan feddyg teulu***

***Lluniwyd y canllawiau hyn mewn ymateb i faterion a nodwyd yn y data cwmpas diweddaraf i gael eu cyhoeddi ar gyfer Rhaglen Plant Iach Cymru***.

Mae Rhaglen Plant Iach Cymru yn nodi pa gysylltiadau wedi'u cynllunio y gall plant a'u teuluoedd eu disgwyl gan eu byrddau iechyd – o drosglwyddo o'r gwasanaeth mamolaeth hyd at flynyddoedd cyntaf y plentyn mewn addysg. Mae'r cysylltiadau cyffredinol hyn yn cwmpasu tri maes ymyrraeth: sgrinio, imiwneiddio a monitro a chefnogi datblygiad plant.

Darperir yr archwiliad 6 wythnos gan fyrddau iechyd ac fe'i cynhelir gan feddygon teulu fel elfen sefydledig o Raglen Plant Iach Cymru.

Mae pedair elfen i'r archwiliad corfforol 6 wythnos (y llygaid, y galon, y cluniau a'r ceilliau mewn bechgyn), sy'n brofion sgrinio dilys ac sy'n cael eu hargymell gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU. Mae nodi unrhyw anawsterau a'u trin yn gynnar yn llwyddiannus yn y pedwar maes hwn yn nodwedd o ofal iechyd hynod ddarbodus, ac mae hefyd yn gwella canlyniadau i blant. Mae problemau sy'n cael eu hosgoi drwy sgrinio yn cynnwys cataractau cynhenid (gan atal dallineb am oes), clefyd cynhenid y galon (gan atal marwolaeth sydyn a derbyniadau brys), dysplasia cynhenid y glun (gan osgoi sefyllfa lle y cyfyngir ar allu'r unigolyn i symud ac o orfod cael sawl triniaeth i osod clun newydd yn ystod oes) a cheilliau cudd (gan atal canser ac anffrwythlondeb mewn dynion). Mae Pwyllgor Sgrinio y DU yn argymell y dylid archwilio pob baban o fewn 72 awr i'w eni, ac unwaith eto yn 6 wythnos oed.

Mae amser yn ystyriaeth gwbl dyngedfennol o ran archwilio'r llygaid yn arbennig ac o ganlyniad mae angen cynnal archwiliad prydlon pan fydd y plentyn yn 6 wythnos oed. Rhaid i fabanod sy'n cael eu nodi oherwydd iddynt gael canlyniad positif yn ystod y broses sgrinio gael eu hasesu gan offthalmolegydd ymgynghorol neu wasanaeth offthalmoleg pediatrig o fewn 2 wythnos i'w harchwiliad (hy erbyn 8 wythnos ar ôl eu geni). Fel arfer, rhoddir triniaeth i fabanod ar gyfer cataractau gweledol arwyddocaol erbyn 6 wythnos ar ôl eu geni os ydynt yn unochrog ac 8 wythnos os ydynt yn ddwyochrog, a gall oedi cyn rhoi llawdriniaeth effeithio ar ddatblygiad y golwg.

Cefnogir Rhaglen Plant Iach Cymru gan y System Iechyd Plant, a ddarperir gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Mae'r system yn trefnu cysylltiadau Rhaglen Plant Iach Cymru ac yn cofnodi data a ddefnyddir i gefnogi gwelliannau i iechyd plant ledled Cymru.

Amgaeir y ffurflen casglu data sy'n cynnwys canllawiau ar yr hyn sydd angen ei lenwi adeg y cysylltiad 6 wythnos a rhaid i bob meddyg teulu lenwi'r ffurflen casglu data hon a'i chyflwyno. Hyd yma, mae'n amlwg nad yw pob meddyg teulu wedi bod yn gwneud hynny. Bydd y data a gesglir ar y ffurflen hon yn cael eu cofnodi ar y System Iechyd Plant, ac wedi hynny mae Llywodraeth Cymru yn derbyn detholiad cyfanredol o'r data er mwyn monitro'r rhaglen. Nid oes gan Lywodraeth Cymru fynediad rheolaidd at ddata sy'n cael eu cadw ar systemau meddygon teulu, felly mae'n hanfodol bod y ffurflen casglu data yn cael ei llenwi a'i chyflwyno i'ch timau Iechyd Plant.

Mae'r Ymwelydd Iechyd yn cynnal ymweliad cyswllt annibynnol pan fydd y plentyn yn 8 wythnos oed. Rhaid cyflwyno ffurflen casglu data 6 wythnos yn ogystal â ffurflen 8 wythnos yr Ymwelydd Iechyd.

# Y cysylltiad ar gyfer archwiliad corfforol ôl-enedigol 6 wythnos o blentyn gan feddyg teulu

Nodweddion demograffeg – wedi'u hargraffu ymlaen llaw

Nodweddion demograffeg – wedi'u hargraffu ymlaen llaw

## 1. CHILD DETAILS

| | | | |
|---|---|---|---|
| NHS Number | Enter here | Address | Enter here |
| Client ID | N/A | | |
| Surname | Enter here | | |
| First name | Enter here | | |
| DOB | DD / MM / YYYY  Sex  Enter here | | |
| GP name | Enter here | | |
| HV name | Enter here | Postcode | Enter here  Tel no. Enter here |

Dylai'r cynnwys gael ei uwcholeuo yn awtomatig

## 2. CONTACT DETAILS

| Contact | | Reschedule | Recall in (weeks) |
|---|---|---|---|
| Contact at 10 - 14 days | HC02 | | |
| Physical examination at 6 - 8 weeks | HC03 | ✓ | Enter here |
| Weight and measurement at 8 weeks | HC04 | ✓ | Enter here |
| Weight and measurement at 12 weeks | HC05 | ✓ | Enter here |
| Weight and measurement at 16 weeks | HC06 | ✓ | Enter here |
| Contact at 6 months | HC07 | ✓ | Enter here |
| Health visitor contact at 15 months | HC08 | ✓ | Enter here |
| Health visitor contact at 27 months | HC09 | ✓ | Enter here |
| Contact at 3.5 years pre-school | HC10 | ✓ | Enter here |
| Schedule of Growing Skills (SoGS) | HC11 | | |
| Date of contact | DD / MM / YYYY | | |

Llenwch os na chynhaliwyd archwiliad – rhowch gylch o amgylch y rheswm

| Reason not examined | |
|---|---|
| Was not brought | 1 |
| Unwell or uncooperative child | 2 |
| Examination refused | 3 |
| Parent / Carer not present | 4 |
| Not required | 5 |
| Consent * | Yes / No |

Rhowch gylch o amgylch un opsiwn yn unig

| Location | |
|---|---|
| GP Surgery | 1 |
| Clinic | 2 |
| At home | 4 |
| Telephone contact | 6 |
| Virtual contact | 7 |

Rhowch gylch o amgylch un opsiwn yn unig

| Examiner | |
|---|---|
| GP | 2 |
| Health Visitor | 3 |
| Registered Nurse | 10 |
| Non-Registered Nurse | 12 |

Rhowch gylch o amgylch un opsiwn yn unig

| | | | |
|---|---|---|---|
| Receiving Flying Start services ** | Yes | No | Not known |
| Looked after child ** | Yes | No | Not known |
| On the Child Protection Register ** | Yes | No | Not known |

Amherthnasol i'r cysylltiad hwn

## 3a. GENERAL OUTCOMES

| Core component offered | |
|---|---|
| Universal | 1 |
| Enhanced | 2 |
| Enhanced plus | 3 |
| Intensive | 4 |
| Intensive plus | 5 |

## 3a. GENERAL OUTCOMES (continued)

Chwiliwch am y mesuriadau yn y Llyfr Coch – y dudalen ar bwysau

| Weight and measurement | | Declin |
|---|---|---|
| Height/Length (1 decimal place) | NN . N CM | ✓ |
| Weight (3 decimal places) | N . NNN KG | ✓ |
| Head circumference (1 decimal place) | NN . N CM | ✓ |

Rhowch gylch o amgylch un opsiwn yn unig

| Evidence of FGM | |
|---|---|
| FGM observed | 1 |
| FGM disclosed | 2 |
| FGM not present | 3 |
| Not examined | 4 |

Amherthnasol i'r cysylltiad hwn

| Domestic violence assessment | |
|---|---|
| Domestic violence assessment completed | 1 |
| Domestic violence assessment not completed | 2 |

| Family resilience Assessment Tool | |
|---|---|
| Responsive parenting | Enter score |
| Family health | Enter score |
| Engagement | Enter score |
| Family support | Enter score |
| Socio/Economic factors | Enter score |
| FRAIT completed | Yes / No |
| Onward referrals made | Yes / No |

## 3b. PHYSICAL OUTCOMES

Rhowch gylch o amgylch un opsiwn yn unig (for each of Heart, Hips, Eyes, Testes (boys), General)

| | | |
|---|---|---|
| Heart | Satisfactory | 1 |
| | Concern | 2 |
| | Not assessed | 3 |
| Hips | Satisfactory | 1 |
| | Concern | 2 |
| | Not assessed | 3 |
| Eyes | Satisfactory | 1 |
| | Concern | 2 |
| | Not assessed | 3 |
| Testes (boys) | Satisfactory | 1 |
| | Concern | 2 |
| | Not assessed | 3 |
| General | Satisfactory | 1 |
| | Concern | 2 |
| | Not assessed | 3 |

## 3c. DEVELOPMENT OUTCOMES

Amherthnasol i'r cysylltiad hwn

| Development | |
|---|---|
| Development as expected | 1 |
| Concern: requires additional support | 2 |
| Development – further assessment required | Yes / No |

## 3d. SCHEDULE OF GROWING SKILLS (SoGS) OUTCOMES

Amherthnasol i'r cysylltiad hwn

| | | |
|---|---|---|
| **Locomotor skills** *(please enter numerical score in the range 0-20 or circle Not assessed)* | Enter score 0-20 | Not |
| **Manipulative skills** *(please enter numerical score in the range 0-28 or circle Not assessed)* | Enter score 0-28 | Not |
| **Visual skills** *(please enter numerical score in the range 0-20 or circle Not assessed)* | Enter score 0-20 | Not |
| **Hearing and language skills** *(please enter numerical score in the range 0-21 or circle Not assessed)* | Enter score 0-21 | Not |
| **Speech and language skills** *(please enter numerical score in the range 0-22 or circle Not assessed)* | Enter score 0-22 | Not |
| **Interactive social skills** *(please enter numerical score in the range 0-24 or circle Not assessed)* | Enter score 0-24 | Not |
| **Self-care social skills** *(please enter numerical score in the range 0-23 or circle Not assessed)* | Enter score 0-23 | Not |
| **Cognitive skills** *(please enter numerical score in the range 0-34 or circle Not assessed)* | Enter score 0-34 | Not |

## 4. INFANT FEEDING

Amherthnasol i'r cysylltiad hwn

Amherthnasol i'r cysylltiad hwn

| Collection time | | Feeding status | |
|---|---|---|---|
| Birth (report from parents) | 1 | Exclusive milk | 1 |
| 10 days | 3 | Combined milk feeding – predominantly breast | 2 |
| 6 weeks | 4 | Combined milk feeding – partially breast | 3 |
| 6 months | 5 | Artificial milk feeding | 4 |
| Age solid foods introduced | Enter here | Age exclusive breastfeeding ceased | Enter here |